# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Siambr Hywel - Tŷ Hywel**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 3 Mehefin 2025

Amser y cyfarfod: 13.30

# 282(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr Hywel, Tŷ Hywel ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

(60 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip: Wythnos Gwirfoddoli

(45 munud)

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip: Y Cynllun Hawliau Pobl Anabl

(45 munud)

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Amseroedd Aros a Blaenoriaethau 2025-26

(45 munud)

## 7 Datganiad gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch: Taith

(45 munud)

## 8 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg

(15 munud)

**NDM8901** Rebecca Evans (Gŵyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y 'Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg', i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Troednodyn:

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2024 a gosodwyd Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mawrth 2025 a 12 Mai 2025, yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Gellir gweld copi o'r Bil ar wefan Senedd y DU: Y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg [Tŷ'r Arglwyddi] (Saesneg yn unig)

**Dogfennau ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Ymateb y Llywodraeth i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (rhif 2 a 3)

## 9 Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 4 Mehefin 2025

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 29/05/2025 i'w hateb ar 03/06/2025

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

1 OQ62763 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag e-feiciau a beiciau modur oddi ar y ffordd?

**Lee Waters** *Llanelli*

2 OQ62800 **(e)**

Beth yw camau nesaf y Llywodraeth ar gyfer datblygu cynllun Metro Bae Abertawe?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

3 OQ62797 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gorfodi amodau cynllunio ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

4 OQ62789 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith y cytundeb rhwng y DU a'r UE ar Gymru?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

5 OQ62803 **(e)**

Pe gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i warchod tir fferm o'r ansawdd uchaf rhag datblygiadau?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

6 OQ62774 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i nodi a gwaredu gwariant gwastraffus a lleihau biwrocratiaeth ar draws ei hadrannau a'i chyrff a ariennir yn gyhoeddus?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

7 OQ62767 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau nad yw cleifion ym Mhowys yn aros yn hwy na tharged Llywodraeth Cymru i gael triniaeth?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

8

OQ62801 **(w)**

Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i wella canlyniadau canser yng Nghymru?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

9

OQ62772 **(w)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cael â Llywodraeth y DU ynglŷn ag effaith eu polisiau ar lefelau tlodi yng Nghymru?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

10

OQ62785 **(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â heddluoedd ynghylch eu defnydd o noeth-chwiliadau ar blant?

**Buffy Williams** *Rhondda*

11

OQ62798 **(e)**

Sut mae strategaeth tlodi plant Llywodraeth Cymru yn cefnogi plant a theuluoedd yn Rhondda?

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

12

OQ62771 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch Rheilffordd Wrecsam, Swydd Amwythig a Chanolbarth Lloegr?